

Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Deintyddol Park View Dyddiad y gweithgarwch: 25 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ebrill 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Park View fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Park View yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pontypridd ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a rhai preifat. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig¹ ar 25 Mawrth 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

¹ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion a staff. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg a'r adolygiadau o ddigwyddiadau, a holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal yr asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddarau polisiâu a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn monitro amgylchedd y practis yn rhagweithiol bob dydd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion yn y clinig, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y drws ffrynt yn cael ei gloi bob amser er mwyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag mynd i mewn i'r safle ar eu pen eu hunain a heb apwyntiad. Dywedwyd wrthym fod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y practis.

Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld deintydd yn cael eu gwahodd i'r practis ac yn cael apwyntiad ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym fod y staff a oedd yn derbyn cleifion i'r safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, a bod pob claf yr oedd angen triniaeth arno yn cael ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Canmolodd y rheolwr cofrestredig staff y practis am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r practis wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r practis yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cael diweddariadau ynglŷn â COVID-19 drwy e-bost, ar ffurf copi caled ac yn ystod cyfarfodydd tîm rheolaidd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ar lafar bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu cofnodi a bod staff yn llofnodi i ddangos tystiolaeth bod y diweddariadau diweddaraf ar COVID-19 wedi cael eu trafod a'u deall gan bob aelod o'r tîm. Dywedwyd wrthym fod cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod pawb yn cael cyngor a chanllawiau cyfredol ar COVID-19.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau ar y Weithdrefn Gweithredu Safonol² ddiweddaraf ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Bwriedir i bob lleoliad gofal deintyddol yng Nghymru ddefnyddio'r canllawiau. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau'r ffurflen Hunanasesu COVID-19, gan gadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â chanllawiau Gweithdrefn Gweithredu Safonol Llywodraeth Cymru.

O edrych ar y Ffurflen Hunanasesu COVID-19, gwnaethom nodi bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewnol amrywiol ar bynciau megis adnabod symptomau COVID-19, rheoli cleifion â symptomau COVID-19, hylendid dwylo, defnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg a gwaredu cyfarpar a ddefnyddiwyd yn ddiogel, gweithdrefnau glanhau, ac argyfyngau meddygol ar gyfer cleifion yn ystod pandemig COVID-19. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig hefyd gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n defnyddio masgiau FFP3³ wedi cael prawf ffitio er mwyn sicrhau bod y masg yn ffitio ar eu hwynebâu'n iawn ac y bydd yn diogelu'r staff yn briodol.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o PPE, gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y brif nyrs ddeintyddol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gweithdrefnau glanhau wedi cynyddu yn y clinig. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw restrau gwirio glanhau yn cael eu cynnal. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl restrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau er mwyn

² <https://llyw.cymru/rheoli-gofal-deintyddol-cleifion-nad-ydynt-wedu-heintio-covid-19>

³ Mae anadlyddion FFP3 wedi'u dylunio i amddiffyn y sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bach yn yr awyr a all gynnwys feirysau.

dangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau yn unol â gweithdrefnau glanhau'r practis.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru⁴, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen adnewyddu'r archwiliad ym mis Gorffennaf 2019. Aeth y practis ati ar unwaith i drefnu bod yr archwiliad yn cael ei gynnal ar ôl y gwiriad ansawdd. Cawsom gopi o'r archwiliad a gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Argymhellwn y dylai'r practis gynnwys archwiliad rheoli heintiau yn ei raglen flynyddol o archwiliadau a drefnir.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r practis, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Perchennog / prif ddeintydd Practis Deintyddol Park View yw'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol⁶ enwebedig.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ar lafar bod yr holl bolisiau a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau adolygu a / neu'n dilyn proses rheoli fersiynau ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw aelodau o'r staff yn absennol oherwydd salwch ar hyn o

⁴ Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu i sicrhau Cymru iachach. Mae'n Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru ac yn eistedd ochr yn ochr ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd.

⁵ Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

⁶ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

bryd ac nad oes unrhyw swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd.

Rhoddwyd adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd yr adroddiad yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei reoli a'i asesu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Fodd bynnag, gwelsom fod y datganiad o ddiben yn cynnwys manylion staff anghywir. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi trefnu i'r datganiad o ddiben gael ei ddiweddarau ar unwaith a chawsom gopi ohono.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael eu hadolygu bob deuddeg mis o leiaf er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliad. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wella ei wybodaeth am rai o feysydd Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'i ddealltwriaeth ohonynt.

Yn dilyn trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig, roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o'r archwiliadau perthnasol a oedd wedi'u cwblhau'n ddiweddar megis archwiliadau croes-heintio, nodiadau clinigol a phelydrau-X. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr archwiliadau wedi'u dyddio'n glir, nad oeddent yn cynnwys manylion y sawl a oedd wedi cwblhau'r archwiliad ac nac oeddent yn cynnwys unrhyw ddynodydd claf unigol. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu cynnwys wrth gynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio llawn ar gael.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Park View

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl restrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau er mwyn dangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau yn unol â gweithdrefnau glanhau'r practis.	Rheoliad 13	Yn dilyn yr arolygiad, roedd y rhestr gwirio glanhau presennol wedi cael ei haddasu'n briodol er mwyn cofnodi dyddiadau a'r staff sy'n gyfrifol am y weithdrefn lanhau.	Majid Jamshad	Ar unwaith
2	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr archwiliad rheoli heintiau yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Argymhellwn y dylai'r practis gynnwys archwiliad rheoli heintiau yn ei raglen flynyddol o archwiliadau a drefnir.	WHTM 01-05	Yn dilyn yr arolygiad, mae dwy set o archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal. Fel yr argymhellir, rydym wedi creu matrices lle rydym wedi nodi ein holl rwymedigaethau a'n cyfrifoldebau yn glir. Mae'r matrices hwn yn cael ei arddangos lle y gellir ei weld bob dydd sy'n	Majid Jamshad	Ar unwaith

			ein hysgogi i gynnal yr archwiliadau rheoli heintiau a rhwymedigaethau eraill.		
3	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael eu hadolygu bob deuddeg mis o leiaf er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliad. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wella ei wybodaeth am rai o feysydd Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a'i ddealltwriaeth ohonynt.	Rheoliad 7	Yn dilyn yr arolygiad, rydym wedi rhoi system ar waith i'n hatgoffa o'r rhwymedigaeth hon. Fel yr argymhellwyd, crëwyd matrices lle rydym wedi nodi ein holl rwymedigaethau a'n cyfrifoldebau yn glir. Mae'r matrices hwn yn cael ei arddangos lle y gellir ei weld bob dydd sy'n ein hysgogi i gyflawni'r holl rwymedigaethau a'r cyfrifoldebau hyn.	Majid Jamshad	Ar unwaith
4	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o fanylion yn cael eu cynnwys wrth gynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio llawn ar gael.	Safon 3.1	Yn dilyn yr arolygiad, rydym felly wedi newid templedi ein harchwiliadau gan gynnwys colofnau ychwanegol i gofnodi mwy o fanylion megis dyddiad yr archwiliad, rhifau cyfeirnod unigol cleifion, pwy sydd wedi cynnal yr archwiliad ac ati.	Majid Jamshad	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Majid Jamshad

Dyddiad: 06/04/2021